**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Amgylched a Chyllid a gynhaliwyd Nos Lun, Tachwedd 16eg 2015 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Colin Hughes (cadeirydd), Roy Tickle (is gadeirydd), Raymond Bartley, Colin L Hughes, Gaynor Wood, Catherine Jones a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Brian Davies.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**1.** **Datgan Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiad canlynol:

Cyng Raymond Bartley - eitem agenda 6(2)(3) - cymorthdaliadau - Cymdeithas Gymraeg Dinbych - personol.

**2.** **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Hydref 19eg 2015.**

**3.** **Materion yn codi:** Nid oedd unrhyw fater yn codi.

**A.** **Amgylchedd.** Nid oedd unrhyw fater amgylcheddol.

**B.** **Cyllid**

**1.** **Cyfrifon:** Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Marian Ll Rees - gwasanaeth cyfieithu 19.10.15<br>(Rhif siec 005749) | - | £102.00 |
| (2) | Marian Ll Rees - gwasanaeth cyfieithu 26.10.15<br>(Rhif siec 005750) | - | £102.00 |
| (3) | Cyng Philip Stevens - Lwfans aelod (2015/2016)<br>(Rhif siec 005751) | - | £100.00 |
| (4) | Sodexo - cynnal a chadw Gardd Dr E P (Hydref)<br>(Rhif siec 005752) | - | £605.88 |
| (5) | Lleng Brydeinig Frenhinol - torch pabi<br>(Rhif siec 005753) | - | £30.00 |
| (6) | Cyng Catherine Jones - lwfans aelod (2015/2016)<br>(Rhif siec 005754) | - | £100.00 |
| (7) | Clerc y Dref - costau teithio (Rhuthun x 2 & Llandudno)<br>(Rhif siec 005755) | - | £38.09 |
| (8) | Clerc y Dref - ad-daliad costau batris ar gyfer noson tân gwyllt<br>(Rhif siec 005723) | - | £3.00 |
| (9) | BT - bil ffôn<br>(Rhif siec 005724) | - | £173.11 |
| (10) | CSDd - rhwystrau tyrfa a chau strydoedd - tân gwyllt 5.11.15<br>(Rhif siec 005758) | - | £360.00 |

Cyfanswm taliadau: £1,614.08

**2.** Derbyniwyd a nodwyd **Adroddiadau Ariannol cyfnod 1.4.15 - 31.10.15.** Mewn ateb i gwestiwn dywedodd clerc y dref, os bydd angen cynnal etholiad ynglŷn â sedd wag y cyngor, bydd y gost i'r cyngor tref tua £4,500 - bydd angen tynnu'r swm allan o arian wrth gefn y cyngor.

**3.** Nodwyd derbyn **£3,000 oddiwrth Lock Stock** sef noddi noson Tân Gwyllt.

**4.** Nodwyd derbyn **£880.36** sef arian a gasglwyd ar noson Tân Gwyllt.

**5.** Nodwyd derbyn **cyfraniadau yn y cyfanswm o £60** (J Williams Cigydd; gwerthwr stryd; Siop Siocled Dinbych) ynglŷn â noson Tân Gwyllt.

**6.** **Cymorthdaliadau**: 1. Nodwyd y llythyrau a'r e-byst yn diolch a dderbyniwyd oddi wrth (1) Clwb Bowlio Dinbych, (2) Groes Goch Brydeinig, (3) Deila a Theithio, (4) Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru, (5) Clwb Rotary Dinbych, (6) Clwb Gymnasteg Dinbych, (7) Eisteddfod Ryngwladol Llangollen.

2. Ystyriwyd yn fanwl y ceisiadau canlynol am gymorthdaliadau a gwnaed penderfyniadau ar bob un fel a ganlyn:

(1) Capel Mawr, Dinbych. Gohiriwyd y cais i weld beth fyddai canlyniad ceisiadau eraill.
(2) Shirley Smith's Black Belt Academy. Gyrrwyd ffurflen gais - heb ei dychwelyd hyd yn hyn – cytunwyd i'w dynnu'n ôl o'r agenda.
(3) Cymdeithas Gymraeg Dinbych - £250 (A.145)(Rhif siec 005759)
(4) Nyrsys Marie Curie - £100 (A.137)(Rhif siec 005760)

**7.** Ystyriwyd a derbyniwyd y dyfynbris a dderbyniwyd oddi wrth Catrin Gilkes am wasanaeth cyfieithu o Ionawr 2016 ymlaen.

**8.** Trafodwyd y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth ddisgyblion Ysgol Frongoch yn gofyn i'r cyngor roddi coeden Nadolig i'r ysgol. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **fod y cyngor yn cyfrannu hyd at £60 i brynu coeden Nadolig** (A.137) **ac i awgrymu fod y goeden yn cael ei phrynu'n lleol.**

**9**. Ystyriwyd yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Sue Williams, Lleng Brydeinig ynglŷn â chau'r strydoedd ar Sul y Cofio. Dywedwyd fod ymholiad wedi ei wneud a swyddogion CSDd a'r aelodau i weld beth oedd yn digwydd mewn trefi eraill o fewn y sir gan fod hyn yn ddigwyddiad cenedlaethol. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **os derbynnir ateb negyddol oddi wrth GSDd fod y cyngor tref yn ad-dalu'r ffi a dalwyd yn y swm o £120.**

**10**. Ystyriwyd y cais a dderbyniwyd oddi wrth Grŵp Busnes Dinbych am barcio am ddim dydd Sadwrn Tachwedd 28ain 2015. Yn dilyn trafodaeth fer cytunwyd i gytuno a'r cais a hefyd i atgoffa'r Grŵp Busnes fod parcio am ddim ar gael yn y dref ar ôl 3 o'r gloch y prynhawn.

**11.** Cyfeiriodd clerc y dref at y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Gymdeithas Hanes Ardal Dinbych ynglŷn â gwerthiant, drwy ocsiwn, yn swydd Essex, albwm prin yn cynnwys 22 o ffotograffau panorama o Ddinbych a dynnwyd tua 1890. Roedd y llythyr yn cynnwys cais am i'r cyngor tref ystyried prynu'r eitem yma ar gyfer Archif Dinbych. Roedd catalog yr arwerthiant yn prisio'r eitem rhwng £50 a £100. Cytunwyd fod yr eitem yma yn un bwysig ac y dylid ei brynu. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i gytuno i gynnig hyd at £200 gael ei wneud mewn ymgais i brynu'r eitem**

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.20 o'r gloch.

Arwyddwyd:................................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:............................................